

# Amrywiaeth y gweithlu

01/05/2021

01/05/2021

Mae'r data isod yn dangos y darlun o'n gweithlu ac amrywiaeth y Bwrdd, ar draws ethnigrwydd, rhyw, anabledd a chyfeiriadedd rhywiol o 2020–2021 ac ymlaen.

Atodiad	Maint
<a href="#">Workforce Diversity Analysis 2022-2023</a>	109.45 KB
<a href="#">Workforce Diversity Analysis 2021-2022</a>	148.69 KB
<a href="#">Workforce Diversity Analysis 2020-2021</a>	133.65 KB
<a href="#">Equality, diversity and inclusion</a>	

Dangosir data meincnod tebyg hefyd, yn seiliedig ar lefelau poblogaeth sy'n gweithio yn y DU.

Rydym yn parhau i gydnabod nad yw rhai meysydd o'n gweithlu mor amrywiol o'i gymharu â lefelau ledled y DU, ac rydym yn cydnabod bod grwpiau staff heb eu gwasanaethu.

Rydym hefyd yn parhau i gydnabod tueddiadau a rhwystrau ehangach y sector treftadaeth i gael mynediad, yn anymwybodol neu'n ymwybodol, bod pob un yn cael effeithiau ar siâp ein gweithlu.

Rydym ni, o ganlyniad, wedi parhau i wella ein system wybodaeth rheoli Adnoddau Dynol i gynorthwyo yn y gwaith hwn a chaniatáu mynediad uniongyrchol i staff at eu data personol er mwyn annog datgelu gwybodaeth yn llawn.

Rydym wedi parhau gyda'n prosesau a'n system recriwtio newydd yn seiliedig ar ein gwerthoedd a'r polisi cysylltiedig i gefnogi hyn. Mae canllawiau newydd ar ymgorffori Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) yn ein recriwtio, yn enwedig sianeli recriwtio.

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar weithio tuag at ein chwe nod craidd:

- gwella amrywiaeth wrth recriwtio
- gwella'r ffordd y rheolir amrywiaeth y gweithlu
- gwella datblygiad gyrfa i staff heb wasanaethau
- gwella cynhwysiant trwy well cefnogaeth staff
- gwella amrywiaeth drwy brentisiaethau a lleoliadau gwaith
- gwella llywodraethu amrywiaeth y gweithlu

Archwiliwch ein hadroddiad [Adolygiad EDI](#) i ddysgu mwy am sut rydym yn gweithio tuag at hyn.

Mae'r Gronfa Treftadaeth yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 a'n dyletswyddau statudol o dan Adran 75 Deddf Gogledd Iwerddon 1998. Rydym yn parhau i gynnal y wobr Hyderus Anabledd ar gyfer recriwtio.

# Y data

Mae lefelau Meincnod y DU a ddyfynnir yn y siartiau isod yn lefelau cenedlaethol y tu allan i'r Gronfa Treftadaeth. Cymerwyd data gan Swyddfa Ystadegau Gwladol y Llywodraeth a ffynonellau tebyg eraill.

## 2021-2022

### Amrywiaeth ethnig

#### Pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig:

- yn ein gweithlu yn 2021-2022: 10%
- Meincnod y DU: 14%

### Amrywiaeth rhywedd

#### Menywod:

- yn ein gweithlu yn 2021-2022: 76%
- Meincnod y DU: 47%

### Amrywiaeth anabledd

#### Pobl gydag anableddau:

- yn ein gweithlu yn 2021-2022: 8%
- Meincnod y DU: 11%

### Amrywiaeth cyfeiriadedd rhywiol

#### Pobl LGBT+:

- yn ein gweithlu yn 2021-2022: 6%
- Meincnod y DU: 3%